Adolygiad Cymwysterau Cymru o'r Amodau Cydnabod Safonol

Adroddiad Cryno: Haen 1 - Adolygiad o'r Amodau Cydnabod Safonol (Amodau A-C)

Cynnwys

1. Cefndir a Chyd-destun 3
2. Methodoleg 4
3. Crynodeb o'r Canfyddiadau a Ddaeth i'r Amlwg: Haen 1 yr Adolygiad o'r Amodau Cydnabod Safonol 6
   Sylwadau Cyffredinol 6
   Blaenoriaethu Amodau 6
   Themâu sy'n dod i'r amlwg 7
4. Y Camau Nesaf 10
Atodiad A: Rhestr o Aelodau'r Panel Rhanddeiliaid 11

1. Cefndir a Chyd-destun

Cyflwynwyd yr Amodau Cydnabod Safonol (“Amodau”) yn wreiddiol yng Nghymru yn 2011, a chawsant eu trosglwyddo o Amodau Cydnabod Cyffredinol Llywodraeth Cymru wrth i ni ymgymryd â'n swyddogaethau yn ystod hydref 2015.

Nid adolygwyd yr Amodau presennol ers hynny.

Fel rhan o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ein Prosiect Strategaeth Reoleiddio yn 2016-17, cytunodd cyrff dyfarnu ei bod yn bryd trefnu adolygiad o'r Amodau. Dywedodd cyrff dyfarnu wrthym fod yr Amodau wedi bod yn rhy rhagnodol a'u bod yn rhy hir. Roeddent hefyd o'r farn nad oeddent yn ddigon tryloyw a'u bod yn cyfyngu ar arloesedd.

Felly, gwnaethom lansio adolygiad o'r Amodau ar 30 Awst 2017.

Adolygiad o'r Amodau Cydnabod Safonol

Nod yr adolygiad yw ystyried i ba raddau y mae'r Amodau yn glir ac yn hygyrch i gyrff dyfarnu, gan sicrhau ar yr un pryd eu bod yn ein galluogi fel y rheoleiddiwr i gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio. Mae'r adolygiad hefyd yn anelu at sicrhau bod yr Amodau Cydnabod Safonol yn briodol ac yn berthnasol i ddysgwyr yng Nghymru a system gymwysterau Cymru.

Bydd yr adolygiad yn:

- archwilio cyfleoedd i symleiddio'r Amodau, gan ganolbwyntio ar feysydd megis eglurder, lefelau rhagnodedd, dyblygu, strwythur a gwerth;
- adolygu'r Amodau o ran pa mor briodol a pherthnasol ydynt i ddysgwyr yng Nghymru a system gymwysterau Cymru;
- ystyried datblygiadau polisi cyfredol, datblygiadau sy'n dod i'r amlwg a datblygiadau yn y dyfodol a nodi newidiadau y gellir eu gweithredu fel rhan o'r adolygiad hwn, a newidiadau y gallai fod angen eu gweithredu yn y tymor hwy o bosibl;
- nodi'r heriau y mae cyrff dyfarnu yn eu hwynebu wrth gydymffurfio ag Amodau a mynd i'r afael â nhw lle y bo'n briodol;
- nodi unrhyw enghreifftiau o arfer da.

2. Methodoleg

Caiff yr Amodau eu hadolygu mewn tair haen, sef: ABC, FHI a DEG. Rydym yn bwriadu cynnal adolygiad o bob haen o fewn terfyn amser o dri i bedwar mis, gan gwblhau'r adolygiad cyfan o fewn 12 mis.

Byddwn yn sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw gysylltiadau rhwng y haenau drwy gydol yr adolygiad a chaiff Adran J, sy'n cynnwys y diffiniadau o'r termau, ei hystyried drwy gydol bob cam.

Adolygiad Desg Mewnol

Nodwyd themâu'r adolygiad yn seiliedig ar adborth gan nifer o randdeiliaid mewnol ac allanol a gasglwyd dros y 18 mis diwethaf. Casglwyd tystiolaeth ychwanegol o adolygiad desg annibynnol o'r Amodau er mwyn nodi enghreifftiau o dystiolaeth sy'n dangos cydymffurfiaeth a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2017. Yn ogystal, casglwyd a dadansoddwyd ffynonellau data ychwanegol megis Datganiadau Cydymffurfio, tystiolaeth fonitro a chwynion.

Arolwg Ymgysylltu Ar-lein

Fel rhan o'r adolygiad, rydym hefyd yn ceisio barn pob corff dyfarnu cydnabyddedig ar ba Amodau neu grwpiau o Amodau y dylid eu hadolygu, a'u rhesymau dros hyn. Er mwyn hwyluso'r broses hon, datblygwyd arolwg ymgysylltu ar-lein er mwyn i bob rhanddeiliad perthnasol roi adborth ar yr Amodau yn unol â thair haen yr adolygiad; gan ddechrau gydag A, B a C.

Roedd ein harolwg ymgysylltu ar-lein ar agor rhwng 30 Awst a 30 Medi 2017. Roedd ar gael drwy ein gwefan, ac anfonwyd llythyrau at Swyddogion Cyfrifol yr 118 o gyrff dyfarnu cydnabyddedig yn eu gwahodd i gwblhau'r arolwg.

Cafwyd 36 o ymatebion i'r arolwg ymgysylltu. Nid atebodd pob ymatebydd bob cwestiwn.

Gan nad oedd yr arolwg yn gofyn am fanylion adnabod yr ymatebwyr, nid yw'n hysbys p'un a ddaeth yr ymatebion gan gynrychiolwyr cyrff dyfarnu, cyrff sector, grwpiau proffesiynol, neu gan unigolion ac ymatebwyr 'eraill'.

Panel Rhanddeiliaid

Er mwyn ymgysylltu'n llawn â chyrff dyfarnu a sicrhau ein bod yn ystyried cymaint o safbwyntiau â phosibl ar draws cyrff dyfarnu, rydym wedi cynnal Panel Rhanddeiliaid â 10 cynrychiolydd o gyrff dyfarnu yn ogystal ag un cynrychiolydd o Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu (FAB) a'r Cyd-bwyllgor Cymwysterau (JCQ). Caiff Ofqual a CCEA (y rheoleiddwyr cymwysterau, arholiadau ac asesiadau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon) eu cynrychioli ar y Panel hefyd.

Gwahoddwyd CBAC, City and Guilds a Pearson fel y tri chorff dyfarnu mwyaf sy'n gweithredu yng Nghymru, yn ogystal ag Agored Cymru, fel yr unig gorff dyfarnu sy'n gweithredu yng Nghymru yn unig. Llenwyd y chwe lle sy'n weddill ar y Panel Rhanddeiliaid gan wirfoddolwyr o gyrff dyfarnu eraill. Gwnaethom weithio'n agos gyda FAB yn ystod y broses hon er mwyn sicrhau bod cyrff dyfarnu yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli'n deg ar y Panel.

Bwriedir i'r Panel hwn gyfarfod deirgwaith yn ystod yr adolygiad. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Panel Rhanddeiliaid yn swyddfeydd Cymwysterau Cymru ar 23 Hydref 2017.

Ceir rhestr lawn o aelodau'r Panel Rhanddeiliaid yn Atodiad A o'r adroddiad hwn.

Hysbysu am gyfleoedd ymgysylltu

Roedd y trefniadau hysbysu'r cyfleoedd ymgysylltu yn ystod haen 1 o'n hadolygiad yn cynnwys y canlynol:

- Datganiad i'r Wasg: Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg, yn gwahodd y cyhoedd i ymateb i'n ffurflen adborth ar-lein, ar ein gwefan, ac fe'i cynhwyswyd yn un o gylchlythyrau Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu (FAB);
- Cyfryngau Cymdeithasol: Dosbarthodd ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol @quals_wales / @cymwysterau_cym wybodaeth am yr adolygiad yn ystod y cyfnod ymgysylltu;
- Gohebu â rhanddeiliaid: Anfonwyd llythyr at bob corff dyfarnu cydnabyddedig, yn ei hysbysu o'n bwriad i gynnal adolygiad o'n Hamodau Cydnabod Safonol ac yn gwahodd pawb i gymryd rhan ac anfon ymatebion ac ymgysylltu â'r adolygiad;
- Gwefan Ymgysylltu: Roedd yr holl ddeunyddiau ymgysylltu ar gael ar ein gwefan. Mae crynodeb o holl fanylion yr Adolygiad o Amodau a chynllun y prosiect ar gael.

3. Crynodeb o'r Canfyddiadau a Ddaeth i'r Amlwg: Haen 1 yr Adolygiad o'r Amodau Cydnabod Safonol

At ddibenion yr adran hon o'r adroddiad, dylid ystyried bod cyfeiriadau at 'ymatebwyr' yn cynnwys yr holl dystiolaeth a gafwyd gan randdeiliaid drwy ein Harolwg Ymgysylltu Ar-lein a'r Panel Rhanddeiliaid.

Sylwadau Cyffredinol

Yn gyffredinol, mae ymatebwyr yn cefnogi nodau ein hadolygiad, gyda rhai ohonynt yn nodi ei fod yn amserol gan nad oedd yr Amodau wedi cael eu hadolygu ers eu cyflwyno yn 2011.

Cafwyd sylwadau ar bob rhan o'r Amodau ac roedd y sylwadau hyn yn eang, gan gynnwys materion megis eglurder geiriad, perthnasedd a phriodolrwydd, yn ogystal â sylwadau ynghylch fformatio, arddull a strwythur.

Yn ogystal â sylwadau ar Amodau A-C, roedd yr ymatebion yn cyfeirio at themâu a allai fod yn berthnasol hefyd i grwpiau eraill o Amodau ac a allai effeithio ar gyfrannau eraill.

Nodwyd diffiniadau fel maes i'w ystyried yn ystod yr adolygiad, gan gynnwys y rheini yn Adran J, yn ogystal â'r rheini o fewn adrannau eraill o'r Amodau.

Nododd ymatebwyr eu bod o blaid yr adolygiad ond bod angen hefyd ystyried yn ofalus y baich rheoleiddio posibl yn deillio o wneud newidiadau o'r fath.

Roedd y defnydd o ganllawiau hefyd yn rhan o'r adolygiad. Roedd ymatebwyr o'r farn y byddai canllawiau ychwanegol o gymorth iddynt ddeall yr Amodau, felly hefyd weithdai a digwyddiadau i rannu arfer gorau gan wahanol gyrff dyfarnu. Nodwyd y defnydd a wneir o logos rheoleiddwyr niferus ar dystysgrifau fel enghraifft amlwg lle roedd angen esboniad pellach.

Blaenoriaethu Amodau

Fel rhan o'n Harolwg Ymgysylltu Ar-lein, gofynnwyd i ymatebwyr hefyd nodi pump Amod y dylid eu hadolygu, yn eu barn nhw, fel mater o flaenoriaeth (gweler Ffigur 1).

Dylid nodi na ddynodwyd p'un a ddylai'r ymatebwyr i'r arolwg ddewis o blith Amodau A-C yn benodol, p'un a ddylent ddewis adran gyffredinol (e.e. B3) neu Amod benodol (e.e. B3.1).

Dewisodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r arolwg o blith Amodau A-C a gwnaethant ddewis adran gyffredinol. Dengys Ffigur 1 isod mai A2, wedi'i dilyn gan A8, oedd yr Amodau a nodwyd amlaf gan yr holl ymatebwyr:

Ffigur 1: Nifer yr ymatebwyr i'r arolwg a nododd y dylid adolygu Amodau A-C fel mater o flaenoriaeth



Themâu sy'n dod i'r amlwg

Mae nifer o themâu wedi dod i'r amlwg o'r gwaith a wnaed i ddadansoddi'r data yng nghyfran 1 ac fe'u hamlinellir isod:

a) Gofynion deddfwriaethol eraill cyfredol

Nododd y rhan fwyaf o ymatebwyr y byddai angen diwygio rhai Amodau er mwyn adlewyrchu gofynion deddfwriaethol cyfredol, yn arbennig goblygiadau penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd, a chamau i orfodi'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y disgwylir iddynt gael eu cyflwyno ym mis Mai 2018 (Amodau A2 ac A6).

b) Strwythur

Nododd ymatebwyr nad oedd rhai Amodau penodol yn darllen fel Amodau fel y cyfryw, ond yn hytrach fel gwybodaeth ategol ar gyfer Amodau blaenorol, neu'n darparu diffiniadau o dermau a oedd yn berthnasol i'r Amod flaenorol. At hynny, gofynnodd cyrff dyfarnu a ddylid darllen Amodau ar y cyd ag eraill, neu a ddylid gallu darllen Amodau ar eu pen eu hunain. Mae Amodau A1.2, A1.5, A3.2, A4.1, B3.2, B4.2, C3.2 yn enghreifftiau.

Er bod ymatebwyr yn nodi nad oedd angen cydymffurfio ag Amodau o'r fath bob amser ac felly y gellid o bosibl eu diwygio, dywedodd ymatebwyr wrthym hefyd y gallai newidiadau i rifau a/neu fformat arwain at faich rheoleiddio posibl. Nododd ymatebwyr eu bod yn darparu Datganiadau Cydymffurfio i dri rheoleiddiwr yn seiliedig ar dempledi tebyg, ac y gallai newidiadau i strwythur ein Hamodau effeithio ar dempledi eu dogfennau a'u dulliau adrodd.

Dywedodd nifer fach o ymatebwyr y gallai newidiadau bach i strwythur yr Amodau e.e. gosod Amodau mewn grwpiau a'u hail-rifo, awgrymu bod yr Amodau yn amrywio mwy o gymharu â rheoleiddwyr eraill nag y byddent mewn gwirionedd. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd fod enghreifftiau o amrywiadau yn bodoli eisoes rhwng Amodau pob rheoleiddiwr.

c) Diffiniadau

Mae sawl thema yn dod i'r amlwg ynghylch diffiniadau ac amodau esboniadol.

Yn gyntaf, cyfeiriwyd at y dull gweithredu mewn perthynas â diffiniadau. Mae cyrff dyfarnu o'r farn mai diffiniadau a geir mewn rhai Amodau yn hytrach na gofynion fel y cyfryw. Cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at y rhesymeg dros gynnwys rhai diffiniadau yn adran J, a chynnwys eraill o fewn yr adrannau eraill.

Yn ail, nodwyd enghreifftiau lle nad yw'r diffiniadau yn Amodau A yn cyfateb i'r diffiniadau yn Adran J. Nodwyd enghraifft lle nad oedd y diffiniad o 'broses gymeradwyo' yn adran J yn cyfateb i'r diffiniad yn Amod C3.2.

Yn drydydd, rydym wedi cael ymatebion ar ddiffiniadau unigol, lle nododd ymatebwyr Amodau y mae angen eu hadolygu. Er enghraifft, roedd llawer o ymatebwyr yn cytuno bod angen eglurder pellach ar y diffiniad o rôl Swyddog Cyfrifol a'r unigolyn mwyaf addas ar gyfer y rôl cyswllt awdurdodol.

Nododd ymatebwyr fod angen gwahaniaethu mwy rhwng camweinyddu a chamymddwyn, a thrydydd partïon a chanolfannau. Gan eu bod yn dermau penodol, roedd ymatebwyr o'r farn y byddai angen camau gweithredu a/neu ymatebion gwahanol ar eu cyfer fwy na thebyg. Cafwyd sylwadau tebyg mewn perthynas â chwynion ac apeliadau fel yr amlinellir yn Amod C2.3.

d) Canllawiau

Nododd ymatebwyr eu bod yn defnyddio canllawiau presennol Ofqual ar yr Amodau Cydnabod Cyffredinol, ac mae'r canfyddiadau a ddaeth i'r amlwg yn awgrymu y byddai canllawiau ategol ar ein Hamodau Cydnabod Safonol o fudd i gyrff dyfarnu.

Dylid nodi mai at ddibenion adran 153 Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 ('Deddf 2009') y lluniwyd y canllawiau presennol gan Ofqual. Er bod rhwymedigaeth ar bob corff dyfarnu[1] o dan Ddeddf 2009 i ystyried y canllawiau hyn, nid yw Deddf Cymwysterau Cymru 2015 yn nodi unrhyw ddarpariaeth o'r fath i ystyried canllawiau wrth gydymffurfio â'n Hamodau Safonol yng Nghymru.

Mae rhai o'r meysydd a nodwyd hyd yn hyn lle y byddai canllawiau ychwanegol yn hwyluso dealltwriaeth a chydymffurfiaeth yn cynnwys y defnydd o logos

[1] Sefydliadau Dyfarnu at ddibenion Deddf 2009

rheoleiddwyr, rhoi gwybod am ddigwyddiadau, ymchwilio ac adrodd, nodi a rheoli risgiau a rhannu gwybodaeth rhwng cyrff dyfarnu.

Mae'r canfyddiadau a ddaeth i'r amlwg yn awgrymu y byddai canllawiau gan Cymwysterau Cymru yn ddefnyddiol, gyda rheoleiddwyr yn llunio canllawiau ategol, lle y bo'n briodol. Yn ogystal, nododd rhai ymatebwyr y byddai gweithdai o fudd er mwyn rhannu arfer gorau a dealltwriaeth gyffredin.

e) Ceisiadau i reoleiddwyr am ddogfennau a/neu bolisïau

Mae rhai Amodau yn ei gwneud yn ofynnol ar hyn o bryd i gyrff dyfarnu sicrhau bod dogfennaeth ar waith a/neu gyflwyno'r ddogfennaeth hon i ni. Gofynnodd ymatebwyr a oedd yr Amodau hyn yn addas at y diben. Mae Amod A4.8 yn un enghraifft, lle gofynnodd sawl ymatebydd a oedd creu a chadw dogfen ynddo'i hun yn sicrhau bod cyrff dyfarnu yn nodi ac yn rheoli risgiau o ran gwrthdaro buddiannau. Mae ymatebwyr wedi gofyn i ni ystyried sut y gallai'r geiriad adlewyrchu'r gofyniad ar gyrff dyfarnu yn well o ran rheoli a nodi achosion o wrthdaro buddiannau, yn hytrach na'r pwyslais ar hyn o bryd ar lunio a/neu gyflwyno dogfen.

4. Y Camau Nesaf

Mae'r holl sylwadau a gafwyd fel rhan o'r adolygiad haen 1 bellach wedi'u casglu ynghyd a'u dadansoddi. Byddwn yn ystyried y canfyddiadau yn ofalus, a byddant yn llywio ein syniadaeth wrth i ni symud ymlaen i ystyried Amodau FHI a DEG yn ystod haenau 2 a 3.

Lansiwyd yr arolwg ymgysylltu ar-lein ar gyfer haen 2 ar 5 Rhagfyr 2017. Anogir pob rhanddeiliad i gymryd rhan a bydd yr arolwg yn cau ar 8 Ionawr 2018. Bydd y Panel Rhanddeiliaid yn cynnal cyfarfodydd pellach yn ystod 2018 fel rhan o gyfrannau 2 a 3, a fydd yn ystyried Amodau FHI a DEG.

Byddwn yn parhau i gasglu tystiolaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau, ac ni wneir unrhyw benderfyniadau hyd nes y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau.

Ar ôl cwblhau ein hadolygiad a dadansoddi'r holl dystiolaeth, byddwn yn ystyried unrhyw ddiwygiadau y gellid eu cynnig gennym i'r Amodau a ph'un a yw'n briodol cynnal ymgynghoriad. Os gwneir newidiadau i'r Amodau, caiff fersiwn ddiwygiedig ei chyhoeddi yn ystod gwanwyn 2019, a fydd yn weithredol o fis Medi 2019.

Atodiad A: Rhestr o Aelodau'r Panel Rhanddeiliaid

Mae Panel Rhanddeiliaid Cymwysterau Cymru ar gyfer yr Adolygiad o'r Amodau Cydnabod Safonol yn cynnwys y sefydliadau canlynol:

- Cymwysterau Cymru
- Ofqual
- Y Cyngor ar gyfer Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu (CCEA)
- CBAC
- Pearson Education
- City and Guilds
- Agored Cymru
- NCFE
- Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA)
- Sports Leaders UK
- Ymddiriedolaeth Elusennol Hyfforddiant Galwedigaethol (VTCT)
- Gwobrau YMCA
- FDQ Cyf
- Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu (FAB)
- Y Cyd-bwyllgor Cymwysterau (JCQ)